GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio

# TYMOR YR HAF 2022

# CYNNWYS

- Cyd-destun
- Pwrpas yr Adroddiad
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach
- Blaenoriaethau Rhanbarthol a nodwyd
- Prif Ganfyddiadau
  - Sectorau Cynradd ac Arbennig gan gynnwys UCD perthnasol
  - Sector Uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig perthnasol ac UCD
- Crynodeb o Gynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion

## CYD-DESTUN

Ers 2015 a chyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, sef adolygiad annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson yn cynnig 68 argymhelliad ar wella addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylch newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru.  Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn datgan:

*'Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu'.*

Yn unol â'r diffiniad ehangach hwn o'r cwricwlwm, ac yn rhan o'u paratoadau, mae pob ysgol wedi bod yn cynnal gweithgareddau tu hwnt i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Cefnogwyd ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio sylweddol hon ers 2017, yn unol â strategaeth Cwricwlwm i Gymru y rhanbarth. Mae enghreifftiau o weithgareddau fel hyn yn cynnwys datblygu addysgeg effeithiol, ystyried asesu pwrpasol gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, datblygu adolygiad gan gymheiriaid ac arwain newid yn unol â gwaith ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgwyliadau ar bob un wrth gyfrannu at welliant cynaliadwy mewn ysgolion. Bwriad y fframwaith yw gyrru'r ymddygiadau a'r arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd.

Ers mis Mawrth 2020, yn ddi-os, mae Covid-19 wedi effeithio ar allu a chynhwysedd ysgolion i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio. Wrth i ysgolion roi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig, amharwyd ar y rhan fwyaf o'u hamserlenni a'u cynlluniau gwreiddiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae Covid-19 yn parhau i fod yn her wrth i achosion godi a gostwng ac arweinwyr yn delio gydag absenoldebau staff a phrinder athrawon llanw.

## PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn Nhymor yr Hydref 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at

y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

Cytunwyd ar yr agweddau yn y rhestr a ganlyn gyda Llywodraeth Cymru a'r rhanbarthau/partneriaethau fel y prosesau sydd angen i ysgolion a lleoliadau addysg eu cwblhau er mwyn bod yn barod i wireddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Mae'r agweddau hyn yn cyd-fynd yn union â'r camau a amlinellir yn y ddogfen 'Y Daith i weithredu'r Cwricwlwm'. Mae pob rhanbarth/partneriaeth wedi cyfrannu at y darlun cenedlaethol cyffredinol a rannwyd â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg. Cofnodwyd cynnydd ar gyfer:

- Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben
- Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.
- Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol
- Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol
- Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.
- Dylunio, cynllunio a pheilota'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig

Yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2022, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi ymweld ag ysgolion ac UCD i ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio trosolwg a chofnodi'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth baratoi am y cwricwlwm newydd. Gweler copi o'r templed yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn ar lefel ranbarthol.

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi **Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion**.

Isod, ceir crynodeb o'r meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel:

**MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH**

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am ragor o gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:

- Datblygu ymhellach ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd - o fewn yr ysgol a rhwng ysgolion;
- Mireinio a gwella prosesau asesu a systemau tracio asesu i sicrhau cynnydd pob dysgwr.
- Parhau i ddatblygu y deuddeg egwyddor addysgegol a gwella ansawdd yr agweddau ar ddysgu ac addysgu a nodwyd o fewn ysgolion unigol;
- Cefnogi arweinwyr ymhellach i gynllunio ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefel ysgol gyfan strategol;
- Cefnogi arweinwyr canol ymhellach i gynllunio sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y dosbarth;
- Yn unol â disgwyliadau'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd:
    - datblygu trefn effeithiol i arfarnu prosesau cwricwlwm gan gynnwys llais y disgybl a'r rhiant;
    - mireinio cynlluniau cwricwlwm hirdymor;
    - parhau i ddatblygu cydweithio ac adolygu gan gymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Parhau i ddatblygu dyluniad y cwricwlwm gyda chymorth penodol i arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, y sgiliau cyfannol a'r themâu trawsbynciol;
- Datblygu ymhellach y flaenoriaeth llesiant ysgol gyfan - gan gynnwys datblygu a gwerthuso'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles;
- Cryfhau ymhellach y gwaith pontio gyda phwyslais neilltuol ar Flynyddoedd 6 i 7 drwy gydweithio cryf a thrafodaeth broffesiynol rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol;
- Darparu cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau uwchradd, ble mae angen, i ddechrau'r Cwricwlwm i Gymru gyda Blynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023;
- Parhau i weithio gydag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i hwyluso trafodaethau clwstwr a chynghrair, rhannu arferion arloesol a datblygol a chefnogi dysgu proffesiynol staff drwy ddyddiau HMS (hyfforddiant).

**BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD**

Mae'r canllawiau y cyfeirir atynt uchod ar gyfer gwella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn:

- gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yn ategu'r dysgu;
- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Nodwyd y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn yn ein Cynllun Busnes rhanbarthol:

- ***Cwricwlwm ac Asesu*** *- Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.*
- ***Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel*** *- gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion*
- ***Arweinyddiaeth*** *- cefnogi arweinwyr ysbrydoledig i gydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol*
- ***Ysgolion cryf a chynhwysol*** *- yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant*
- ***Cefnogi system sy'n hunan wella*** *- cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson*
- ***Busnes*** *- sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian*

Mae'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod Tymor yr Haf, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mhwrpas yr adroddiad hwn, hefyd wedi adnabod y blaenoriaethau hyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm i fodloni gofynion mandadol a statudol mewn lleoliadau Meithrin hyd at Flwyddyn 6, a'r ysgolion a'r lleoliadau uwchradd hynny sydd wedi dewis ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

   Cefnogir hyn trwy:
   - Hwyluso a chysoni gwaith o fewn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol, cynghreiriau a chlystyrau i rannu arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
   - Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd drwy drafodaeth broffesiynol bwrpasol;
   - Datblygu amrywiaeth o weithdrefnau asesu effeithiol i gynnwys asesu ar gyfer dysgu i sicrhau cynnydd yn y dysgu i bob dysgwr;
   - Cydweithio gydag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu prosesau cadarn i werthuso'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â mesurau holistaidd o'r pedwar diben;
   - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
   - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant ar gyfer dysgu proffesiynol effeithiol gan roi ystyriaeth i'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sydd ar y gweill ac a gyhoeddir fis Medi gan Lywodraeth Cymru.

2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol er mwyn gwella, yn unol â'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid, yn enwedig mewn cynghreiriau uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Dylai hyn gynnwys pwyslais ar werthuso Cwricwlwm i Gymru.

4. Parhau i ddarparu cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau uwchradd, ble mae angen, i fod yn barod i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r cynlluniau busnes rhanbarthol a rhaglen waith GwE ar gyfer Tymor yr Hydref 2022 ymlaen.

**PRIF GANFYDDIADAU**

Cofnodwyd y cynnydd gan ysgolion a lleoliadau wrth baratoi i wireddu'r cwricwlwm ar lefel ysgol a lleoliad unigol a'i gasglu yn y tabl isod i ddangos trosolwg rhanbarthol.

| **Crynodeb GwE**<br>**Nifer yr ysgolion** | **Pob ysgol**<br>**404** |
|---|---|
| | Ar drac. |
| 1. Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol/lleoliad a sut all y rhain gyfrannu at y pedwar diben. | 99.5% |
| 2. Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm. | 98.9% |
| 3. Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol ysgol. | 98.6% |
| 4. Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer eu hysgol/lleoliad penodol. | 97.0% |
| 5. Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn eu cwricwlwm/cyd-destun lleol. | 94.0% |
| 6. Dylunio, cynllunio a threialu eu model cwricwlwm arfaethedig, gan werthuso dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau tymor canolig. | 93.0% |

**SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD**

Ym mis Medi 2022, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru newydd ym mhob lleoliad o oed Meithrin hyd at Flwyddyn 6.

- **Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben**

Mae bron pob ysgol wedi ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a chadarn gyda'u rhanddeiliaid lleol gan gynnwys plant, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymdeithas leol. Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae ysgolion wedi cyd-lunio'r ffactorau sy'n gwneud eu hysgol yn unigryw ac mae'r ffactorau hyn wedi siapio gwaith dylunio cwricwlwm yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu ystod o ddulliau ymgysylltu i gasglu'r wybodaeth hon, yn aml drwy holiaduron neu ofyn am farn drwy'r gwefannau cymdeithasol. Mae enghreifftiau hefyd ble mae ysgolion wedi gwahodd pobl i siarad a defnyddio dulliau digidol i recordio barn trigolion lleol. O ganlyniad, mae dyluniad cwricwlwm cychwynnol bron pob ysgol yn dangos ei bod yn ymateb i'w ffactorau lleol unigryw.

Bu'r pedwar diben yn ffocws allweddol y mae ysgolion wedi datblygu arnynt dros amser gyda mwy o ystyriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob ysgol wedi cynnwys dysgwyr yn y trafodaethau hyn i ddeall beth mae'r rhain yn ei olygu i'r ysgol ac ystyried iaith sy'n ddealladwy i'r plant. Mae llawer o ysgolion wedi creu cymeriadau fel y gall disgyblion gyfeirio atynt ac uniaethu â'r agweddau o fewn y dibenion. Ar draws ysgolion arbennig, mae'r pedwar diben wedi'u cysylltu â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ac wrth adrodd i rieni. Mae'r gwaith a wnaed yn yr UCD hefyd wedi canolbwyntio ar y pedwar diben a gyda phwyslais neilltuol ar ddatblygu sgiliau bywyd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol fwy o berchnogaeth ar y pedwar diben ac wrth ddeall y pedwar diben hyn yn unigol, mae gwell dealltwriaeth o'r pedwar diben yn eu cyfanrwydd. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn arddangos y pedwar diben yn weledol yn eu dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac mae bron i bob athro yn adnabod cyfleoedd i'r pedwar diben yn eu gwaith cynllunio ac wedi'u plethu wrth ddylunio'r cwricwlwm ar lefel addas i blant ddeall. Mewn ysgolion arbennig, mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon a pherthnasol yn seiliedig ar y pedwar diben ac yn cydnabod anghenion unigol dysgwyr ar yr un pryd. Drwy'r holl waith uchod i ddod i ddeall y pedwar diben, mae cyswllt clir rhwng ffactorau unigryw yr ysgol a dyheadau'r rhanddeiliaid.

- **Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.**

Roedd bron i bob ysgol ar draws y rhanbarth yn bresennol ac yn rhan o'r gweithdai ar hyrwyddo newid a rhoi

canllawiau ar adolygu a datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ôl trafodaethau ag arweinwyr ysgolion ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, mae bron pob ysgol wedi defnyddio'r canllawiau hyn fel man cychwyn i'w prosesau adolygu ac ymgynghori nhw'u hunain.

Y cam cyntaf i bron bob ysgol oedd casglu gwybodaeth gan yr holl randdeiliaid ynghylch yn union pa werthoedd ac ymddygiad yr hoffent weld yr ysgol yn eu datblygu, drwy naill ai gyfarfod wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, neu gan ddefnyddio holiaduron. Roedd llawer o ysgolion yn gallu tynnu'r geiriau pwysig o'r ymatebion a chreu wal eiriau o'r rhain sydd yn nodi'r gwerthoedd a'r dyheadau hyn.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, roedd bron pob ysgol naill ai wedi addasu eu gweledigaeth flaenorol neu wedi llunio gweledigaeth newydd ar gyfer lansio'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Datblygwyd y gweledigaethau hyn drwy ymgynghori'n uniongyrchol â'r holl randdeiliaid ac ystyried y cyd-destun a'r dyheadau lleol. Mae'r pedwar diben yn amlwg yn y gweledigaethau ac yn rhoi nod i holl waith yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi troi'r weledigaeth yn arwyddair bachog a defnyddio hyn i egluro eu gweledigaeth yn lleol. Mae rhai wedi gwahodd artistiaid lleol i weithio gyda'r disgyblion i ddehongli eu syniadau a'u dyheadau ar ffurf murlun neu gân ysgol. Gyda'r gwaith hwn i ddatblygu gweledigaeth ysgol, cyrhaeddwyd dealltwriaeth gyffredin o ddyheadau'r ysgol ar draws y gymuned ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi hyrwyddo a dathlu eu gweledigaeth newydd gyda balchder, ar wefannau ysgol er enghraifft.

- **Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol**

Sefydlwyd isadeiledd ar draws y rhanbarth gan rwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru, a hynny er mwyn galluogi arweinwyr ac athrawon ysgol i fynd ati i gynnal trafodaethau proffesiynol am ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm. Gwelwyd nifer cynyddol o ymarferwyr yn ymwneud â'r rhwydweithiau hyn drwy gydol y flwyddyn, a bellach mae 804 o ymarferwyr yn aelodau ar draws y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae cynrychiolaeth dda ar draws pob Awdurdod Lleol ac mae'r aelodau hefyd yn cynnwys cydweithwyr o GwE, Awdurdodau Lleol a staff CABAN Prifysgol Bangor, er enghraifft, bydd Ymgynghorwyr Ysgol Iach yr Awdurdod Lleol yn mynd i'r rhwydweithiau Iechyd a Lles yn eu Hawdurdod Lleol nhw. Mae'r Athro Graham Donaldson yn parhau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol i gynnig arweiniad a sylwadau ar drafodaethau a chynnig rhagor o bwyntiau i'w hystyried er mwyn symud ymlaen.

Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi canolbwyntio ar bob agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm sydd wedi cynnwys arbrofi â chynllunio'r cwricwlwm a threialu ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae nifer cynyddol o ysgolion ar draws pob sector wedi rhannu eu harferion ac wedi adnabod egwyddorion y broses a fu'n allweddol i'w lleoliad, er enghraifft ysgol gynradd yn cyflwyno ei gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ysgol arbennig yn cyflwyno ei gwaith ar Iechyd a Lles, ysgolion uwchradd yn cyflwyno eu gwaith ar ddatblygu a chynllunio ar gyfer cynnydd yn y sgiliau trawsgwricwlaidd. Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau yn ehangach â phob ysgol drwy wefan GwE a thrafodaethau ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau hefyd drwy gyfres o weminarau Dysgu Proffesiynol ar-lein ar gyfer Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau wedi defnyddio arweiniad y rhwydwaith a'r gweminarau i helpu gyda'u trafodaethau ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r drafodaeth hon, yn aml gyda disgyblion a llywodraethwyr, wedi arwain at berchnogi'r dylunio. Er enghraifft, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i fodelau dysgu gwahanol a gwnaed gwaith ymchwil mewn llawer o ysgolion i sicrhau bod eu polisi iaith yn cael ystyriaeth. Mae bron pob ysgol wedi sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru wedi'i blethu'n glir yn nyluniad y cwricwlwm.

Gwnaed gwaith i ystyried elfennau mandadol y cwricwlwm yn ystod y tymor diwethaf ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ystyried yr elfennau hyn wrth ddylunio, gan gymryd gofal i'w plethu er mwyn sicrhau cyd-destunau dilys. Mae bron pob ysgol wedi cwblhau dogfen dylunio cwricwlwm lefel uchel ar ffurf ddrafft gyda'r holl staff yn ei pherchnogi a'r llywodraethwyr wedi'i derbyn yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn barod i'w chyhoeddi ddechrau mis Medi. Mae'r dylunio cwricwlwm lefel uchel hwn yn grynodeb o'r cwricwlwm a gweler gwefannau llawer o ysgolion bellach yn dathlu eu gweledigaeth, cyfeiriad y pedwar diben a'u dulliau arloesol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog o fis Medi ymlaen.

- **Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol**

Mae bron pob ysgol wedi adolygu eu modelau dylunio cwricwlwm yn sgil y gwaith ar osod gweledigaeth a chyfeiriad

i'r ysgol. Ar ôl dod i ddeall elfennau dylunio eu cwricwlwm drwy weithdai GwE a'u gwaith ymchwil eu hunain, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn trafod ac yn ystyried gwahanol fodelau cwricwlwm.

Yn rhan o'r gwaith hwn, rhoddodd bron bob ysgol sylw i amrywiaeth o fodelau dysgu a daw'n amlwg, yn gyffredinol, mai dulliau integredig a rhyng-ddisgyblaethol yw prif yrwyr y dysgu mewn ysgolion cynradd. Er hynny, cydnabu lawer o ysgolion yr angen i ddysgu mewn ffordd ddisgyblaethol ar adegau, er enghraifft, i ddatblygu sgiliau rhifedd.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi arbrofi â phlethu themâu trawsgwricwlaidd ac ymateb i'r cwestiynau mawr dros y flwyddyn. O'r sylwadau a gafwyd wrth dreialu, awgrymir mai dyma'r model y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn ei ddefnyddio ym mis Medi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynllunio ar gyfer cyfuniad o themâu ysgol gyfan a grwpiau blwyddyn sydd yn rhoi rhwydd hynt i athrawon sicrhau cynnydd ar draws yr ysgol gyfan o ddilyn dull gweithredu thema ysgol gyfan. Mae bron pob ysgol hefyd wedi cynllunio ar gyfer cynnwys unedau gwaith mwy byr dymor, er enghraifft, dyddiau dathlu, cyfleoedd lleol yn y gymuned i sicrhau dysgu gwreiddiol.

Mae llawer o ysgolion yn arbrofi gydag amrywiol fformatau cynllunio tymor canolig, ac fel arfer mae'r rhain yn gyfle i adnabod ble mae'r thema yn cyffwrdd â'r pedwar diben ond hefyd yn adnabod y cyfleoedd i fod yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae llawer o ysgolion yn rhannu'r dulliau cynllunio hyn â'i gilydd gyda'r rhan fwyaf yn parhau i'w mireinio i'w gwneud yn fwy hylaw a phwrpasol.

Er mwyn dod i ddeall yn well gofynion y cwricwlwm, gwelwyd bron pob ysgol yn mynd drwy'r broses o ddadbacio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ym mwyafrif yr ysgolion, bu'r holl staff yn rhan o'r broses hon sydd wedi arwain at ddealltwriaeth lawer ddyfnach o'r gofynion yn ogystal â chyfle i drafod sut i blethu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a nodwyd mewn Maes Dysgu a Phrofiad mewn cyd-destunau dilys ac ystyrlon. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos i ddadbacio'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig o fewn y cwricwlwm, ac wedi rhannu arbenigedd a gwybodaeth bynciol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i greu perchnogaeth a thimau cydweithredol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, er enghraifft, rhannu dogfennau ar-lein a safleoedd Google.

- **Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.**

Mae bron pob ysgol wedi blaenoriaethu amser i ganolbwyntio ar y deuddeg egwyddor addysgegol, er enghraifft, cyfarfodydd staff, cyfarfodydd clwstwr a dyddiau hyfforddi staff. Mae bron pob ysgol wedi dechrau treialu amrywiol ddulliau o gymhwyso'r egwyddorion yn eu cynlluniau cwricwlwm, gan ddefnyddio adnodd myfyrio y deuddeg egwyddor addysgegol gan GwE fel man cychwyn i weld ble mae cryfderau'r ysgol a pha feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r egwyddorion addysgegol wedi treiddio i'r cynllunio ar gyfer tasgau cyfoethog mewn llawer o ysgolion gyda sylw o'r newydd yn cael ei roi i gyd-destunau gwreiddiol, tasgau tu allan a phrosiectau creadigol cyffrous.

Gweler llawer o ysgolion yn parhau hefyd i ddatblygu agweddau ar Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) sydd yn nodwedd gref o'r deuddeg egwyddor addysgegol ac hefyd yn rhan o'r dulliau a rannwyd ac a dreialwyd o fewn y prosiect gyda Shirley Clarke. Mae bron pob ysgol wedi mabwysiadu'r dulliau dysgu hyn a'u defnyddio i sicrhau y gall disgyblion weithio'n fwy annibynnol a bod y camau nesaf yn y dysgu yn cael eu hadnabod. Bydd y dulliau asesu hyn hefyd yn cryfhau gwybodaeth athrawon o gynnydd pob plentyn.

Ar y cyfan, bwriad y rhan fwyaf o ysgolion yw asesu drwy gychwyn yn y dosbarth efo gwaith disgyblion o ddydd i ddydd. Bydd athrawon yn cadw golwg ar gynnydd ac yn aml yn marcio camau mewn datblygiad. Bwriada'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd barhau i ddefnyddio'r asesiadau cenedlaethol a'r profion safonedig i fonitro safonau darllen a rhifedd. Bwriad y rhan fwyaf o ysgolion hefyd yw asesu a thracio lles plant yn ogystal â'u hagwedd at eu gwaith. Mae rhai ysgolion yn ystyried prynu pecyn masnachol ar gyfer hyn, tra bod eraill eisiau treialu adnodd tracio GwE a llawer am fabwysiadu neu ddatblygu eu dulliau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau yn defnyddio'r canllawiau statudol ar Hwb ac enghreifftiau a chanllawiau pellach gan GwE i ystyried pwrpas asesu ac maent wrthi'n cynllunio cyfleoedd i drafod yn broffesiynol yn rheolaidd i athrawon gael ystyried asesu a chynnydd dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gwelwyd bod datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn agwedd i'w datblygu ymhellach flwyddyn nesaf.

- **Dylunio, cynllunio a pheilota'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig**

Bu cydweithio yn elfen graidd i ysgolion er mwyn dylunio a symud ymlaen i gynllunio'r cwricwlwm ac felly mae llawer o enghreifftiau i'w gweld o gydweithio datblygedig a chynnar ar draws ysgolion ac ar draws clystyrau.

Mae'r athrawon sy'n aelodau o rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn cydweithio ar feysydd penodol ac wedi rhannu'u gwaith ar draws rhwydweithiau eraill. Mae ysgolion eraill hefyd wedi elwa o'r gwaith hwn gan fod athrawon ar y rhwydweithiau wedi rhannu gwybodaeth a syniadau yn ystod cyfarfodydd lleol a sesiynau clwstwr.

Yn ystod y cyfnod peilot hwn o gynllunio, bu llais y dysgwr yn amlwg yn y rhan fwyaf o ysgolion gydag amrywiaeth o enghreifftiau yn dangos sut mae dysgwyr yn dylanwadu ac yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi gofyn am farn neu syniadau rhieni a'r rhanddeiliaid eraill ynghylch thema benodol. O dderbyn y syniadau hyn a'u plethu yn y cynlluniau, mae mwy o berchnogaeth ar y cynlluniau, mwy o gyfle i'r gymuned leol fod yn rhan a mwy o frwdfrydedd am y themâu.

Erbyn diwedd tymor yr Haf 2022, mae bron pob ysgol wedi trafod a phenderfynu ar ddulliau cynllunio tymor canol at fis Medi. Cydnabyddir ei bod hi'n ddyddiau cynnar ac y bydd angen parhau i gadw golwg ar y cwricwlwm i fireinio'r cynllunio wrth i ni symud ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd yn cydnabod bod y cynlluniau presennol yn canolbwyntio ar y tymor canolig fwyaf ac maent yn bwriadu adolygu eu cynllunio at ddiwedd tymor yr Hydref i fwydo i ystyriaethau cynllunio tymor hwy.

**SECTORAU UWCHRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD PERTHNASOL**

Ym mis Medi 2022, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru ym mhob lleoliad o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6. Rhoddwyd y dewis i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu Blwyddyn 7 y cyfle i ddewis dechrau cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022. Mae deuddeg lleoliad ar draws GwE wedi dewis cyflwyno ym mis Medi 2022. Bydd pob lleoliad uwchradd, arbennig ac UCD arall yn dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023.

- **Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynnal gwaith i ddeall y ffactorau unigryw o ran lleoliad a chyd-destun yr ysgol ac wedi ystyried darpariaeth arbenigol yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ysgolion wedi cynnal llu o weithgareddau i gynnwys rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal sesiynau i staff ystyried 'cynefin' a'r pwyslais ar ddatblygu hunaniaeth dysgwyr gan wneud cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn nyfnder y dysgu. Adnabuwyd cysylltiadau cydweithredol â diwydiannau lleol a chyfleoedd o fewn cwricwlwm lleol ac yn arbennig ble gall darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith gefnogi llwybrau dysgwyr.

Mae bron pob ysgol uwchradd wedi datblygu partneriaeth waith gref â'r clwstwr o ysgolion cynradd lleol. Bu hyn yn allweddol wrth ystyried datblygiadau lleol Cwricwlwm i Gymru ar draws y continwwm dysgu 3 i 16.

Gwelwyd y rhan fwyaf o ysgolion yn ail-ymweld â'r pedwar diben gyda staff, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach i ymateb i effaith y pandemig ar ysgolion a theuluoedd. Yn rhan o hyn, mae'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar sut all y pedwar diben gyfrannu at weledigaeth yr ysgol o fewn ei chymuned leol. Mae rhagor o enghreifftiau i ddeall y pedwar diben yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr hŷn werthuso'r ddarpariaeth yn erbyn y pedwar diben ar draws yr ysgol a'u hystyried yn erbyn system fugeiliol yr ysgol, a hynny fel eitem gyson ar agenda cyfarfodydd staff. Cafodd ysgolion arbennig ac UCD y cyfle i ystyried beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i ddysgwyr yn eu lleoliadau a defnyddiwyd hyn fel sylfaen i ail-lunio eu gweledigaeth, ail-frandio a rhannu hyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, gwefan.

- **Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.**

Mae bron pob ysgol wedi ymgynghori â rhanddeiliaid fel y gallant gyfrannu at ddatblygu gweledigaeth yn seiliedig ar

werthoedd ac ymddygiad yr ysgol. Ceir amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys holiaduron ac arolygon ar gyfer dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr gyda sesiynau hyfforddiant undydd fel bod modd trafod â staff. Ceir llawer o enghreifftiau ar draws y rhanbarth ble mae ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol wedi sefydlu trafodaeth reolaidd ar ddatblygu elfennau cyffredin o fewn eu gweledigaeth ar sail y pedwar diben.

Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r weledigaeth hon, yn seiliedig ar y pedwar diben, i ymgorffori dull gweithredu'r ysgol gyda gwahaniaethu, ac hefyd rhoi pwyslais cryf ar ddyhead, her a lles. O fewn y dulliau ar gyfer datblygu gweledigaeth ysgol, gofynnodd rai ysgolion i staff ystyried y weledigaeth a chyfraniad y Maes Dysgu a Phrofiad at weledigaeth drosfwaol yr ysgol a gellir gweld arddangosiadau gweledol o'r weledigaeth o gwmpas yr ysgol.

O ran yr ysgolion hynny sydd yn mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, maent wedi rhannu eu gweledigaeth am y cwricwlwm newydd â dysgwyr Blwyddyn 6 a rhieni yn rhan o'r broses bontio.

Mae'r ysgolion sydd yn mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023 yn cydnabod yr angen i barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i greu a gweithredu gweledigaeth yr ysgol ac yn rhan o ail-ymweld â'r cam hwn. Yn ôl yr adborth ar draws y rhanbarth, mae ysgolion wrthi'n datblygu gweledigaeth gref ar gyfer dysgu ac addysgu sydd yn cynnwys y "beth" a'r "pam" gyda rhagor o waith angen ei wneud ar y "sut".

- **Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol**

Cafodd bron bob ysgol a lleoliad y cyfle i fanteisio ar weminarau GwE ar ddylunio'r cwricwlwm, egwyddorion cynllunio a sesiynau i edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio recordiadau, trafodaethau dilynol ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a sesiynau hyfforddiant penodol i staff yn ystod amser HMS. Mae llawer o ysgolion uwchradd hefyd wedi defnyddio'r deunyddiau o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru i gefnogi staff i gyfoethogi sgwrs broffesiynol a datblygu eu dealltwriaeth o fframwaith Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft, canllawiau ar ddadbacio'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhwydweithiau presennol fel Dirprwy Benaethiaid ac Arweinwyr Dysgu ac Addysgu a rhai Cynghreiriau wedi defnyddio eu hamser cyfarfod i drafod ymhellach a rhannu eu gwaith a'u dulliau. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion cynradd yn datblygu eu dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm â holl staff yr ysgol.

Mae pob ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r elfennau mandadol wrth ddylunio eu cwricwlwm. Darparwyd canllawiau a sesiynau dysgu proffesiynol ar agweddau fel Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac mae'r rhain yn cefnogi cydlynwyr mewn ysgolion i ystyried y goblygiadau a sut i ddechrau datblygu a dylunio dull ysgol gyfan i gyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol.

Mae dealltwriaeth eang a chynyddol o bwysigrwydd y sgiliau trawsgwricwlaidd ar bob lefel o gynllunio. Mae cydlynwyr yn dechrau mapio'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth honno drwy gefnogi gwaith cynllunio pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dengys lawer o ysgolion barodrwydd i weithio ar ddatblygu hyn ymhellach a gwelant fod datblygu dull gweithredu strategol ysgol gyfan i sicrhau cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn faes sydd i gael blaenoriaeth yn y flwyddyn academaidd newydd. Yn rhan o hyn, cydnabuwyd yr ystyriaeth i greu amser a lle i gydlynwyr wneud y gwaith hwn.

Gwelwyd llawer o ysgolion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u cyd-destun Cymraeg ac mae arddangosiadau gweledol o gwmpas yr ysgol yn dathlu diwylliant ac etifeddiaeth Cymru gyda gwaith ar ''Ein Llais Ni'' yn flaenoriaeth ysgol gyfan.  Mewn rhai ysgolion, mae pwyslais ar edrych yn fanylach ar gyfleoedd i ddefnyddio mwy ar Gymraeg achlysurol o gwmpas yr ysgol a sut mae'n ymwneud â'r gymuned.

- **Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio adnoddau GwE i ymgynghori ag Arweinwyr Canol ac athrawon. O ganlyniad, ystyriwyd amrywiaeth o fodelau dylunio'r cwricwlwm. Mae ysgolion wedi treialu ystod o wahanol ddulliau yn rhan o'r ystyriaethau hyn, a rhoddir enghreifftiau isod:

- Gwelwyd rhai ysgolion yn cyflwyno'r pedwar prif fodel dylunio'r cwricwlwm i staff ac yn trafod sut y gellid eu cynnwys yn eu gwaith cynllunio. Wedyn, bu'r pynciau yn gweithio gyda'i gilydd fel Maes Dysgu a Phrofiad i

gynllunio prosiect i Flwyddyn 7;

- Mae rhai ysgolion yn edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Celf Mynegiannol, Iechyd a Lles a'r Dyniaethau fel pynciau aml a rhyngddisgyblaethol wedi'u cyfuno;
- Mewn rhai ysgolion, mae rhai cyfadrannau aml-bynciol yn treialu'r dull aml-ddisgyblaethol o fis Medi. Bydd dysgu ar sail thema yn dechrau mewn rhai ysgolion gyda 'Cynefin' yn ffocws, a pharheir gyda chyfres o fwy o themâu drwy gydol y flwyddyn;
- Mae ysgolion eraill yn bwriadu cyflwyno rhai prosiectau rhyng-ddisgyblaethol rhwng Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Mae amryw o ysgolion yn edrych i gyflwyno rhaglenni lles unigryw a mwy o amser yn y maes hwn;
- Addaswyd rhywfaint ar flociau amser y cwricwlwm, er enghraifft, ychydig mwy o oriau ar gyfer Iechyd a Lles a Chelf Mynegiannol a mwy o amser i addysgu'r Gymraeg;
- Awgryma nifer o ysgolion mai model hybrid fydd y cwricwlwm, a fydd yn corffori'r holl fodelau dylunio ar adegau gwahanol a phriodol. Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys ble cyflwynir Ieithoedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth fel pynciau disgyblaethol, neu rhai'n edrych ar ddatblygu STEM i gyflwyno Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ysgolion yn ystyried yn ofalus y strwythurau staffio presennol a'r gallu o fewn yr ysgol i fod yn newid yr amserlen. Gwelodd ysgolion hefyd yr angen i sicrhau bod cysylltiadau cadarn yn cael eu creu ac nad yw'n fater o wthio pynciau at ei gilydd yn ddiangen. Cydnabyddir hefyd bod angen dilyniant o fewn y cwricwlwm ac edrych ar y dibyniaethau. Disgwyl y mae ysgolion hefyd am fwy o wybodaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC ar y TGAU diwygiedig cyn gwneud cynlluniau ar gyfer Blynyddoedd 9, 10 ac 11.

Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr cynradd y clwstwr ac wedi gweld bod hyn yn hynod werthfawr gyda rhannu syniadau yn ymarferol yn dal i lywio'r gwaith cynllunio cwricwlwm ar lefel uchel. Mae llawer o enghreifftiau o feysydd ffocws cyffredin ble mae cydweithwyr cynradd ac uwchradd yn cydweithio arnynt i rannu cynlluniau, a dyddiau clwstwr ar y gweill i edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol.

Mae dysgu proffesiynol i'r holl staff yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o waith dylunio'r cwricwlwm ymhellach. Gwêl lawer o ysgolion ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar hyn ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweld y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu dros y flwyddyn academaidd nesaf i sicrhau ei fod yn eang a chytbwys, yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a thueddfryd ac yn bwysig, yn galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben o fewn gweledigaeth yr ysgol.

- **Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.**

Bu datblygu addysgeg yn ffocws allweddol i bron pob ysgol ar draws y rhanbarth gan fod llawer o ysgolion wedi gweld bod newidiadau'r cwricwlwm yn gyfle i fyfyrio ar ddulliau a modelau dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol. Mae ysgolion wedi adnabod ystod o feysydd ysgol gyfan i gael sylw gan gynnwys arferion adalw, asesu ar gyfer dysgu, a sgiliau cwestiynu. Croesawodd yr ysgolion gyfres o sesiynau gan GwE, yn canolbwyntio ar yr egwyddorion addysgegol, ac mae gwaith dilynol wrthi'n cael ei gwblhau yn yr ysgol. Bu llawer o ysgolion hefyd yn datblygu prosiectau ymholi ymchwil weithredu o gwmpas yr egwyddorion addysgegol i athrawon gael datblygu a rhannu arferion mewn timau. Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi clustnodi amser i staff ysgol gyfan ystyried a datblygu'r deuddeg arfer addysgegol sydd yn parhau i gael sylw mewn dyddiau hyfforddiant.

Agwedd bwysig i lawer o ysgolion fu gweithio gyda chlystyrau cynradd a rhoi sylw i ddysgu ac addysgu, er bod natur y gwaith hwn yn benodol i bob clwstwr. Mae nifer fach o glystyrau cynradd ac uwchradd wedi clustnodi amser penodol i fynd i sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd. O ganlyniad, mae gan y clwstwr ddealltwriaeth gyffredin o addysgeg ar draws y continwwm i fodloni anghenion pob dysgwr. Mewn llawer o glystyrau, cydnabyddir y bydd trafodaeth broffesiynol barhaus rhwng cydweithwyr cynradd ac uwchradd yn elfen gynyddol bwysig. Cynllunnir gweithgareddau fel cyd-arsylwi gwersi i ddatblygu dulliau addysgegol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Ar draws y rhanbarth, mae bron pob ysgol wedi ystyried ei dull asesu ac wedi gweithredu mewn amrywiol ffyrdd i ddatblygu'r prosesau hyn. Mae ysgolion wedi ystyried eu trefniadau presennol, er enghraifft, mae'r ysgolion sydd yn rhan o'r gwaith gyda Lyn Sharrat wedi gweld ble mae'r gwaith ar 'raeadr asesu' a sgiliau meddwl uwch yn cyd-fynd yn naturiol â chynllunio'r Cwricwlwm i Gymru o gwmpas cynnydd ac asesu. Mae ysgolion wedi adnabod blaenoriaethau i'w lleoliadau yn ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, rhai enghreifftiau yw gwella ansawdd yr adborth

a defnyddio seibiannau dysgu i helpu dysgwyr werthuso'u gwaith. Mae lleiafrif o ysgolion hefyd yn edrych ar brynu pecyn masnachol i olrhain cynnydd dysgwyr, tra bod nifer fach yn cydweithio â chydweithwyr o fewn ysgolion eraill i ddatblygu eu dulliau eu hunain gan ddefnyddio gwaith ymchwil addysgol i lywio'r gwaith hwn.

Nododd bron pob ysgol bod datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r egwyddorion cynnydd yn flaenoriaeth i gael sylw parhaus ym mis Medi. Bydd canllawiau pellach, enghreifftiau a thrafodaethau proffesiynol mewn rhwydweithiau yn allweddol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae ysgolion yn ystyried sut i roi 'gwaelodlin' i'w dysgwyr ar fynediad gan ddefnyddio ystod eang o ddata i ddangos cynnydd yn erbyn y pedwar diben. Rhoddir ystyriaeth i drafod yn barhaus ag ysgolion cynradd lleol ac ysgolion uwchradd eraill lleol, ar ddulliau posibl i'w defnyddio i gofnodi cynnydd, gyda phwyslais ar y data pontio sydd yn angenrheidiol i gefnogi pob dysgwr.

- **Dylunio, cynllunio a pheilota'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig**

Ar draws y rhanbarth, mae Uwch Arweinwyr ysgolion wedi ail-gyflwyno prosesau sicrhau ansawdd oherwydd heriau gweithredol parhaus y pandemig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae prosesau ar waith sydd yn adnabod sut bydd gwaith i dreialu dulliau o ddylunio'r cwricwlwm yn cael ei werthuso. Ble mae ysgolion yn arbrofi â chynnwys mwy newydd mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, nodwyd amser i adolygu a myfyrio yn rheolaidd.

Ar draws y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff ysgolion wedi bod yn gweithio o fewn timau Maes Dysgu a Phrofiad i ddadbacio'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn:

- adnabod y cysyniadau allweddol sydd angen eu datblygu;
- nodi sut mae'r datganiad yn cefnogi'r pedwar diben;
- ystyried sut brofiadau allai gefnogi'r dysgu yn eu meysydd;
- ystyried pa gyfleoedd sydd yna i roi sylw i'r themâu trawsgwricwlaidd;
- ystyried pa gysylltiadau, y gellir edrych arnynt rhwng y rhain a Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig neu MDaPh eraill.

Rhannwyd canllawiau drwy'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol a lleol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dilyn y broses hon i ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm newydd.

Mae pob ysgol wedi nodi bod datblygu'r gwaith cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol yn ystod amser HMS ac mae llawer o ysgolion yn amserlennu amser cyfarfod rheolaidd i ddatblygu, adolygu a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y flwyddyn academaidd nesaf, bydd creu cyfleoedd i ysgolion rannu eu hamrywiol ddulliau â'i gilydd yn bwysig.

**CRYNODEB O DDYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GwE I YSGOLION**

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws pob sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae gan bob ysgol fynediad at gynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr sy'n cynnwys cynnig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan, MDaPh a disgyblaeth bynciol lle bo'n briodol. Mae'r cynnig hwn, sydd yn cynnwys addysgeg (y deuddeg egwyddor addysgegol), dylunio a chynllunio cwricwlwm, asesu a chynnydd, yn cyd-fynd yn glir â chamau y 'Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gymwys i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu a dechrau gweithredu o fis Medi 2022.

Drwy ymgynghori'n rheolaidd â fforymau phenaethiaid, gall anghenion yr ysgolion lywio'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol. Mae cyd-lunio yn dal yn gydran graidd y gwaith rhanbarthol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ymarferol sydd yn helpu arweinwyr ac athrawon i ddeall yn well sut y gallant ddylunio, mabwysiadu a chyflwyno eu cwricwlwm. Fel rhan annatod o hyn, mae prosesau arfarnu cadarn ar waith i fonitro effaith y cymorth a ddarperir a mireinio'r cynnig fel bo angen.

Yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, mae cynnig dysgu proffesiynol GwE wedi canolbwyntio ar gyfres o weminarau ar-lein i uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac athrawon i fynychu i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y cwricwlwm newydd. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau rhithiol hyn ar draws y rhanbarth, gyda llawer o ysgolion yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu fel tîm arweinyddiaeth llawn ac/neu fel cyfarfod staff cyfan. Recordiwyd y sesiynau

hyn a'u rhannu â phob ysgol er mwyn i ymarferwyr eu gwylio ar yr amser mwyaf priodol. Ar ben hynny, cafodd bob ysgol y cyfle i gael sgyrsiau dilynol â'u Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ac mae llawer o ysgolion a chlystyrau wedi gofyn am sesiynau penodol i ddatblygu ar y gwaith hwn ymhellach. Mae nifer cynyddol o ysgolion wedi cyfrannu at y sesiynau, yn rhannu arferion cynnar ac enghreifftiau lleol. O ganlyniad, gall ysgolion weld y theori ar waith. Gwelir trosolwg o'r cynnig dysgu proffesiynol cyffredinol i'r rhanbarth yn y tabl isod.

Gan weithio'n rhan o'r grŵp Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol cenedlaethol, mae ystod o adnoddau ategol, (a ddarperir yn gydamserol ac yn anghydamserol) sydd bellach wedi'u rhannu'n genedlaethol i bob ymarferwr eu defnyddio.  Mae cyfathrebu rheolaidd a pharhaus ag ymarferwyr drwy'r rhwydweithiau yn dal yn flaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau mynediad agored a theg i bob rhanddeiliad.

O ran yr ysgolion hynny sydd yn paratoi'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm, maent wedi gweithio'n ehangach mewn ffordd gydweithredol yn hytrach na chystadleuol. Mae'r cwricwla a ddatblygir yn tynnu ar gyd-destunau lleol, yn cryfhau perthnasoedd yn y gymuned ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn gweledigaeth a rennir ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae dysgwyr wrth wraidd cynllunio'r cwricwlwm, yn datblygu cwricwlwm pwrpasol, gyda chyfleoedd i fod yn fwyfwy arloesol a chreadigol.

| **SESIYNAU I UWCH DIMAU ARWEINYDDIAETH** | **Nifer yr ysgolion yn mynychu** |
|---|---|
| *Dylunio Cwricwlwm* | *504 Cynradd, 101 Uwchradd, Arbennig ac UCD* |
| *Asesu a Chynnydd* | *620 Cynradd, 141 Uwchradd, Arbennig ac UCD* |
| *Egwyddorion Cynllunio* | *499 Cynradd, 95 Uwchradd, Arbennig ac UCD* |
| *Galluogi Dysgu* | *362 Cynradd* |
| **SESIYNAU I ARWEINWYR CANOL / ATHRAWON** | |
| **Sesiwn 1: Dadbacio Meysydd Dysgu a Phrofiad** | |
| Cynradd | 237 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Uwchradd | 110 |
| Mathemateg a Rhifedd Uwchradd | 48 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg Uwchradd | 54 |
| Dyniaethau Uwchradd | 48 |
| Iechyd a Lles Uwchradd | 43 |
| Y Celfyddydau Mynegiannol Uwchradd | 36 |
| **Sesiwn 2: Cynnydd mewn Dysgu** | |
| Cynradd | 518 |
| Olrhain ac Asesu Cynradd | 312 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Uwchradd | 64 |
| Mathemateg a Rhifedd Uwchradd | 43 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg Uwchradd | 38 |
| Dyniaethau Uwchradd | 21 |
| Iechyd a Lles Uwchradd | 21 |
| Y Celfyddydau Mynegiannol Uwchradd | 15 |

Mae rhwydweithiau a fforymau lleol a rhanbarthol yn effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm. Bu nifer cynyddol o ymarferwyr ysgol yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol a lleol ar draws y rhanbarth, gyda mwy na 800 o staff GwE, Awdurdodau Lleol ac ymarferwyr ysgol yn gweithio'n agos i ystyried dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel Maes Dysgu a

Phrofiad. Drwy gydol y flwyddyn, bu nifer cynyddol o ysgolion yn rhannu eu dulliau a'u prosesau dylunio cwricwlwm a rhennir yr holl waith drwy'r wefan i bob ysgol gael gweld. Yn ôl y data, mae nifer cynyddol o ysgolion yn edrych ar y tudalennau Cwricwlwm i Gymru ar Ganolfan Cefnogaeth GwE gyda nifer yr ymwelwyr yn codi dros dymor yr Haf o 2845 i 6587 (cyfrwng Saesneg) ac o 2674 i 6429 (cyfrwng Cymraeg).

Ar ddiwedd tymor yr Haf 2022, bu GwE yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn llywio camau nesaf y rhwydweithiau. Yn ôl y sylwadau cychwynnol, mae mwy o berchnogaeth ar y cwricwlwm ar draws ymarferwyr y rhwydwaith a dealltwriaeth well o fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth gref gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion yn effeithiol i ddatblygu rôl ymholi yn rhan o ddatblygu cwricwlwm lleol.

Mae'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi gweithio'n agos gyda'u hysgolion ac wedi cefnogi ysgolion mewn amrywiaeth o ffyrdd i fodloni anghenion ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion. Dyma enghreifftiau o gymorth:

- Yn fuan yn nhymor yr Hydref 2021, bu pob YCG yn cydweithio â chlystyrau neu ysgolion unigol i lunio blaenoriaeth i gyflwyno'r cwricwlwm yn eu cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau yn nodi'n glir cerrig milltir ar gyfer gweithgareddau ym mhob ysgol i ddeall yn llawn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, arbrofi â chynllunio a dysgu a casglu barn rhanddeiliaid er mwyn cyfrannu at weledigaeth erbyn Haf 2022. Yn ystod eu hymweliadau, bu'r YCG yn trafod gweithrediad ac effaith y cynllun wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi;
- Mae pob YCG wedi bod yn rhan o arwain yr ysgolion drwy amrywiol weithdai ar arwain newid, cynllunio'r daith at 2022, gweithdy ar weledigaeth ysgol, asesu a chynnydd, a dylunio model cwricwlwm lefel uwch. Rhoddwyd mynediad at recordiadau o'r cyflwyniadau hyn i bob ysgol, yn ogystal ag arlwy gynhwysfawr o adnoddau ar wefan GwE;
- Cyflwynwyd adnoddau perthnasol eraill, fel y papurau procio, i bob ysgol a chlwstwr a defnyddiwyd y rhain bellach i fapio'r daith gan bron pob ysgol;
- Mae pob YCG wedi cyfarfod â phenaethiaid i rannu'r adnoddau a ddatblygwyd gan GwE i gefnogi ysgolion gyda'r broses o ddylunio'r cwricwlwm a sicrhau bod cyfeiriad strategol i arwain y gwaith cynllunio a chyflwyno;
- Gwelwyd llawer o glystyrau yn elwa o gymorth yr YCG, ac yn aml rhai o'u cydweithwyr, i arwain sesiynau ysgol gyfan yn ystod dyddiau hyfforddiant a sesiynau gwyll, er enghraifft arwain ysgolion drwy ofynion Cwricwlwm i Gymru, deall a dadbacio'r MDaPh a thrafod strategaethau i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm;
- Mae pob YCG hefyd wedi bod yn rhan o gyfarfodydd dal fyny i benaethiaid, sydd wedi cynnwys eitemau cwricwlwm lleol ar eu hagenda. Golyga hyn fod y newyddion diweddaraf yn cael eu rhannu a bod y penaethiaid yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y camau nesaf wrth gyflwyno;
- Darparu sesiynau penodol mewn llawer o ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddibenion asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru a mynediad at enghreifftiau o sut mae ysgolion yn datblygu eu dulliau;
- Yn ogystal â'r penaethiaid a'r athrawon mewn ysgolion, mae'r cymorthyddion dysgu ym mron pob ysgol hefyd wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd a'r gweithdai hyn gyda'r YCG. Ers dechrau'r pandemig, mae Cymorthyddion Dysgu wedi cael eu huwch sgilio a'u grymuso i fabwysiadu rolau amlycach yn yr ysgol, er enghraifft, cyfrannu at broses cynllunio'r cwricwlwm;
- Bu YCG hefyd yn cynnig cymorth i lywodraethwyr ar eu rôl yn cefnogi ysgolion gyda dylunio a chynllunio;
- Yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, bu YCG yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi ysgolion i lunio gweledigaeth a dyluniad cwricwlwm, gan sicrhau cyfraniad yr holl randdeiliaid lleol;
- Drwy gydol tymor y Gwanwyn a'r Haf, roedd darparu cymorth ar agweddau ar ddysgu ac addysgu yn cynnwys edrych eto ar y deuddeg egwyddor addysgegol;
- Erbyn diwedd tymor yr Haf, yn sgil cyfraniad yr YCG, gan gynnwys gweithdai a modelau GwE, mae bron pob ysgol wedi drafftio dyluniad lefel uchel o'u cwricwlwm at fis Medi, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi trafod a bellach wedi derbyn y dyluniad drwy eu cyrff llywodraethu;
- Cyfarfu'r YCG â Phenaethiaid ac aelodau'r Uwch Dimau Arwain ym mhob ysgol i gefnogi gyda gwerthuso gwaith dylunio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol ac adnabod unrhyw ofynion o ran cymorth;
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi mwyafrif yr ysgolion gyda chynllunio Maes Dysgu a Phrofiad a datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol;
- Mae pob ysgol wedi cael recordiadau ac adnoddau o'r weminarau dylunio'r cwricwlwm ac asesu;
- Mae YCG wedi cefnogi a hwyluso gwaith clwstwr a chynghrair ble'n briodol;

- Mae YCG wedi galluogi ysgolion i ddatblygu rôl cymheiriaid o fewn hunan arfarnu a chysoni hyn â’r ffocws ar Cwricwlwm i Gymru ble’n briodol.

## ATODIAD 1

| CEFNOGAETH CiG GWANWYN A HAF 2022 / CfW SUPPORT SPRING AND SUMMER 2022 | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol / School | | ALl / LA | |
| Pennaeth / Headteacher | | YCG / SIA | |
| Statws / Status | Drafft / Draft | Dyddiad / Date | |

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses a'r cynnydd y mae ysgolion a lleoliadau rhanbarthol yn ymgymryd â nhw mewn paratoad ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022 (neu Medi 2023 ar gyfer ysgolion uwchradd sydd wedi dewis yr opsiwn hwnnw). Mae'r broses a nodir isod yn cyd-fynd yn llawn â'r camau gaiff eu hamlinellu yn y ddogfen Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm.

This report captures the process and progress that regional schools and settings are undertaking to be prepared for curriculum realisation in September 2022 (or September 2023 for secondary schools who have taken that option). The identified process below aligns fully to the steps outlined in the Journey to Rollout document.

| Crynodeb o fewnbwn yr YCG hefo'r ysgol yn dilyn gweminarau dylunio, cynllunio ac asesu.<br>Summary of SIA input to school following design, planning and assessment webinars. |
|---|
| |

| **Cam 1**: Adnabod ffactorau unigryw'r ysgol / lleoliad sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben.<br>**Step 1**: Identifying the unique factors of the school / setting and how these contribute to the four purposes. |
|---|
| |

| **Cam 2:** Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.<br>**Step 2:** Reviewing the vision, values and behaviours to support curriculum realisation. |
|---|
| |

| **Cam 3:** Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol.<br>**Step 3:** Understanding of curriculum design considerations including mandatory elements and school linguistic policy. |
|---|
| |

| **Cam 4:** Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer yr ysgol / lleoliad penodol.<br>**Step 4:** Review curriculum design models and investigate the suitability for their specific school / setting. |
|---|
| |

| **Cam 5:** Ystyried rôl dilyniant, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm a'r cyd-destun lleol.<br>**Step 5:** Considering the role of progression, assessment and pedagogy in their local curriculum / context. |
|---|
| |

| **Cam 6:** Dylunio, cynllunio a threialu y model cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynllluniau ar gyfer y tymor canolig.<br>**Step 6:** Designing, planning and trialling their proposed curriculum model, evaluating initial designs and developing medium term plans. |
|---|
| |

| A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol sydd wedi'u hadnabod? Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau estynedig tîm GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?<br>Are there any other further areas/aspects for professional learning that you have identified? What will be the role and contribution of your SIA and extended GwE team members in supporting this work? |
|---|
| |

| Gwybodaeth ychwanegol os nad yw'r ysgol ar drac ar gyfer y gweithredu....gan gynnwys cefnogaeth wedi'i thargedu.<br>Additional information if school is not on track for implementation.....including targeted support. |
|---|
| |

| **Ysgolion Uwchradd, Canol, Arbennig a UCD yn unig:** Dyddiad gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer disgyblion blwyddn 7 a 8<br>**Secondary, Middle, PRUs and Special Schools Only:** Implementation Date of the new curriculum for pupils in years 7 and 8. | |
|---|---|

| **GWEITHREDU / ACTIONS** | | |
|---|---|---|
| Camau Gweithredu / Required Action | Cyfrifoldeb / Responsibility | Pryd / By When |
| | | |

| Arwyddwyd / Signed | | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|---|

| CEFNOGAETH CiG GWANWYN A HAF 2022 / CfW SUPPORT SPRING AND SUMMER 2022 | | |
|---|---|---|
| 1 | Adnabod ffactorau unigryw'r ysgol / lleoliad a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben.<br>Identifying the unique factors of the school / setting and how these contribute to the four purposes. | Ar drac / On Track |
| 2 | Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.<br>Reviewing the vision, values and behaviours to support curriculum realisation. | Ar drac / On Track |
| 3 | Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol.<br>Understanding of curriculum design considerations including mandatory elements and school | Ar drac / On Track |
| 4 | Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer yr ysgol / lleoliad penodol.<br>Review curriculum design models and investigate the suitability for their specific school / | Ar drac / On Track |
| 5 | Ystyried rôl dilyniant, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm a'r cyd-destun lleol.<br>Considering the role of progression, assessment and pedagogy in their local curriculum / context. | Ar drac / On Track |
| 6 | Dylunio, cynllunio a threialu y model cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig.<br>Designing, planning and trialling their proposed curriculum model, evaluating initial designs and developing medium term plans. | Ar drac / On Track |

**ATODIAD 2**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd**


Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodeb o weithgareddau staff GwE ers y cyfnod clo cyntaf:

**Activities recorded and time spent**

Every Supporting Improvement Adviser (SIA) contacts his/her line manager every morning and a list of their daily tasks is recorded in their calendar. Here is a summary of the activities of GwE staff since the first lockdown period:

1. **Am y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 22 Mai, 2020**
   **For the period between 23 March and 22 May, 2020**

| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cefnogi a gweithio gydag ysgolion \| Supporting and working with schools | 9049 | 44% |
| Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol \| Regional and Local Authority work | 6992 | 34% |
| Cefnogi Dysgu Proffesiynol \| Supporting Professional Learning | 1645 | 8% |
| Parhad Dysgu Cenedlaethol \| National Continuity of Learning | 2879 | 14% |
| Arall \| Other | 45 | <1% |




**ATODIAD 2**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

2. **Am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, 2020.**
   **For the period between 1 June and 17 July, 2020**


| **Categori \| Category** | **Oriau \| Hours** | **% Oriau \| Hours** |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 1044 | 7% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional work | 3704 | 25% |
| Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion Schools – Regional work supporitng schools | 3619 | 24% |
| Cyfarfodydd Awdurdod Lleol \| Local Authority meetings | 653 | 4% |
| Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr \| Schools – bespoke support/cluster | 2788 | 19% |
| Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc. | 3084 | 21% |



## ATODIAD 2

3. **Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, 2020.**
   **For the period between 1 September and 31 December 2020.**

| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 2284 | 6% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional work | 10675 | 28% |
| Awdurdod Lleol \| Local Authority | 2284 | 6% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol<br>Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning | 11789 | 31% |
| Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid<br>Schools – Headteacher Performance Management | 380 | 1% |
| Dysgu Carlam \| Accelerated Learning | 3423 | 9% |
| Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati<br>Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc. | 7223 | 19% |




ATODIAD 2

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**4. Am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 9 Ebrill, 2021**
**For the period between 1 Januray and 9 April, 2021**


| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 1614 | 7% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional work | 7639 | 33% |
| Awdurdod Lleol \| Local Authority | 1542 | 6% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol<br>Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning | 7895 | 34% |
| Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid<br>Schools – Headteacher Performance Management | 213 | 1% |
| Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati<br>Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc. | 4338 | 19% |



## ATODIAD 2

5. **Am y cyfnod rhwng 11 Ebrill a 23 Gorffennaf, 2021**.
   **For the period between 11 April and 23 July, 2021**.

| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 1168 | 5% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional work | 7212 | 33% |
| Awdurdod Lleol\| Local Authority | 1414 | 6% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol \| Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning | 8184 | 37% |
| Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati \| Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc. | 4218 | 19% |




**ATODIAD 2**

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**6. Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 24 Rhagfyr, 2021.**
**For the period between 1 September and 24 December, 2021**


| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 1359 | 5% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional work | 8893 | 36% |
| Awdurdod Lleol \| Local Authority | 1572 | 6% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion<br>Schools – Supporting and working with schools | 7881 | 32% |
| Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau<br>Schools - Supporting cluster work and alliances | 1087 | 4% |
| Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid<br>Schools – Headteacher Performance Management | 300 | 1% |
| Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati<br>Other for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc. | 3785 | 15% |



ATODIAD 2

7. **Am y cyfnod rhwng 3 Ionawr a 22 Ebrill, 2022.**
**For the period between 3 January and 22 April, 2022.**

| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 1592.3 | 7% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional Work | 8556.1 | 38% |
| Awdurdod Lleol \| Local Authority | 1197.5 | 5% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion \| Schools - Supporting and working with schools | 6516.7 | 29% |
| Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau \| Schools - Supporting the work of clusters and alliances | 1036.5 | 4% |
| Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid \| Schools - Headteachers' Performance Management | 151.4 | 1% |
| Arall - Other | 3678 | 16% |



**ATODIAD 2**

8. **Am y cyfnod rhwng 25 Ebrill a 22 Gorffennaf, 2022**.
   **For the period between 25 April and 22 July, 2022**.

| Categori \| Category | Oriau \| Hours | % Oriau \| Hours |
|---|---|---|
| Cenedlaethol \| National | 993 | 5% |
| Gwaith Rhanbarthol \| Regional Work | 6412 | 34% |
| Awdurdod Lleol \| Local Authority | 1336.5 | 7% |
| Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion \| Schools Supporting and working with schools | 6261 | 34% |
| Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau \| Schools Supporting the work of clusters and alli-ances | 875 | 5% |
| Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid \| Schools - Headteachers' Performance Management | 24 | 0% |
| Arall \| Other | 2701 | 15% |

